# Taflen Wybodaeth i Gleifion Merched sy’n mynychu am a Hysterosgopi Cleifion Allanol

# Clinig Hysterosgopi

Croeso i'r Clinig Hysterosgopi. Gobeithiwn, trwy ddarparu'r wybodaeth hon i chi cyn i chi ymweld â'r clinig, y gallwn ateb rhai o'ch cwestiynau.

**Pam ydw i wedi cael fy nghyfeirio at y clinig?**
Rydych wedi cael eich cyfeirio at y gynaecolegydd oherwydd gwaedu annormal yn y wain neu broblemau eraill, sy'n gofyn am archwilio tu mewn i'ch croth . Nid yw’r rhan fwyaf o fenywod sy’n profi gwaedu annormal yn dioddef o unrhyw glefyd y groth, ond oherwydd bod nifer fechan yn dioddef ohono, mae angen diystyru clefydau sydd angen triniaeth benodol. Pwrpas eich ymweliad yw deall pam bod y broblem hon yn digwydd a phenderfynu beth yw'r driniaeth orau i chi.

**Pam y gofynnwyd i mi fod yn bresennol am sgan?**
Cyn eich hysterosgopi, efallai y bydd eich ymgynghorydd am i chi gael sgan uwchsain. Os felly, bydd yr Adran Pelydr-X yn cysylltu â chi gydag apwyntiad. **Gwnewch bob ymdrech i fod yn bresennol ar gyfer yr apwyntiad hwn er mwyn sicrhau y gellir cynnal eich triniaeth cyn gynted â phosibl. 1 – 2 awr cyn eich apwyntiad hysterosgopi byddem yn argymell eich bod yn cymryd cyffur lleddfu poen syml (Paracetamol neu Ibuprofen).**

**Beth os byddaf yn cael fy mislif ar adeg yr apwyntiad?**
Gan nad yw'r prawf y mae angen i ni ei wneud yn y clinig yn cael ei gynnal fel mater o drefn, os byddwch yn cael eich mislif neu os byddwch yn gwybod y byddwch yn cael eich mislif, ffoniwch er mwyn newid dyddiad eich apwyntiad os gwelwch yn dda. Rhowch gymaint o rybudd ag y gallwch os bydd angen i chi newid dyddiad eich apwyntiad os gwelwch yn dda. Mae hyn yn golygu na fydd eich apwyntiad yn cael ei wastraffu gan y gallwn ei gynnig i fenyw arall. **Fodd bynnag, os ydych wedi cael eich atgyfeirio oherwydd gwaedu ar ôl y menopos mae'n bwysig eich bod yn mynychu'r apwyntiad a roddir hyd yn oed os ydych yn gwaedu.**

**Beth ddylwn i wisgo i'r clinig?**
Fel gydag unrhyw archwiliad o'r wain, gofynnir i chi dynnu'ch teits a'ch pants. Rydym yn awgrymu eich bod yn gwisgo sgert llac (nid trowsus na sgert dynn) gan y bydd hyn yn lleihau faint o newid y bydd yn rhaid i chi ei wneud ac rydych hefyd yn debygol o deimlo'n fwy cyfforddus tra byddwch yn y clinig.

**Beth yw hysterosgopi?**
Yn y clinig rydym yn cynnal prawf o'r enw hysterosgopi. Mae hysterosgopi yn galluogi meddyg i edrych i mewn i'ch croth gan ddefnyddio telesgop bychan a elwir

yn hysterosgop.  Mae'r hysterosgop yn cael ei basio'n ofalus trwy wddf y groth (ceg y groth).

**Beth fydd yn digwydd yn y clinig?**
Pan fyddwch yn mynychu'r clinig hysterosgopi bydd y meddyg yn gofyn cwestiynau i chi am eich problemau.

Yn union fel sy'n digwydd pan fyddwch yn cael prawf ceg y groth, bydd offeryn yn cael ei osod yn eich gwain fel y gellir gweld gwddf eich croth.  Efallai y byddwch yn cael anesthetig lleol i wneud yr ardal yn ddiffrwyth, er, mae’r hysterosgopau mor denau erbyn hyn, anaml y mae angen anesthetig lleol.  Bydd yr hysterosgop yn cael ei drosglwyddo i'ch croth.  Yn ystod yr archwiliad gellir gweld y llun o du mewn eich croth ar sgrin deledu a gallwch edrych arno gyda'r meddyg os dymunwch.  Bydd y meddyg yn esbonio'r canfyddiadau i chi.

Yna bydd y meddyg yn cymryd sampl bach iawn o feinwe o leinin y groth (biopsi). Bydd hwn yn cael ei anfon i'w archwilio o dan ficrosgop (histoleg).  Weithiau bydd tagiau croen syml (polypau) yn cael eu canfod yn y groth ac efallai y bydd modd tynnu'r rhain yn ystod yr hysterosgopi.

**Pa mor hir fydd hysterosgopi yn ei gymryd?**
Mae hysterosgopi yn cymryd tua 10 munud.

**A oes unrhyw gymhlethdodau posibl?**
Yn anaml iawn, gall hysterosgopi arwain at gymhlethdodau, yn union fel gydag unrhyw driniaeth feddygol arall.  Yr hyn sy’n digwydd yn fwyaf cyffredin (ond yn anaml iawn) yw bod yr hysterosgop yn treiddio trwy wal y groth yn ddamweiniol. Os bydd hyn yn digwydd byddai'n rhaid i chi aros yn yr ysbyty am sawl noson er mwyn cael eich arsylwi.   Yn fwy anaml byth, gall haint ddatblygu y tu mewn i'r groth.

**Beth fydd yn digwydd wedyn a sut byddaf yn teimlo?**
O bryd i'w gilydd, ar ôl y driniaeth, efallai y byddwch yn cael rhywfaint o boen sy’n debyg i boen mislif.
Fe ddylai tabledi Paracetamol, Ibuprofen neu Ponstan gael gwared ar y boen yma, a bydd y tabledi hyn yn cael eu rhoi i chi yn y clinig os bydd eu hangen arnoch. Gofynnir i chi orffwys yn y clinig am gyfnod byr.  Yna fe ddylech chi deimlo'n ddigon da i deithio adref ar eich pen eich hun, er efallai yr hoffech chi gael rhywun gyda chi a allai fynd â chi adref.  Gallech fynd yn ôl i weithio os dymunwch.

**Pan fyddwch gartref:-**
Efallai y byddwch yn gwaedu am ychydig ddyddiau, a bydd angen gwisgo pad. Bydd angen i chi osgoi defnyddio tamponau.  Efallai y byddwch hefyd am gymryd cyffuriau lleddfu poen, ee y dos a argymhellir o baracetamol.  Os byddwch yn gwaedu’n drwm neu os bydd gennych bryderon yn dilyn eich apwyntiad, cysylltwch â'r ward Gynaecoleg.

**Pryd fyddaf yn cael y canlyniadau?**
Pan fydd canlyniadau'r sampl meinwe o'ch croth (biopsi) wedi'u derbyn, bydd y meddyg yn ysgrifennu atoch chi a'ch Meddyg Teulu i awgrymu unrhyw driniaeth bellach sydd ei hangen.  Bydd hyn yn cymryd tua 4 wythnos.

**Nodiadau Personol**

________________________________________________________________

________________________________________________________________

________________________________________________________________

________________________________________________________________

________________________________________________________________

________________________________________________________________

________________________________________________________________

________________________________________________________________

**Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/**
**This document is available in English**